

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**07/03/2007**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio  
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau  
Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks
- 5 Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes  
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**  
**Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration**

**Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf**  
**Communities First Partnership**

**Q12 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on the number of Communities First partnerships that have formed successful links with the private sector? OAQ1120(SJR)

**C12 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a ffurfiodd gysylltiadau llwyddiannus â'r sector preifat? OAQ1120(SJR)

**The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart):** We do not yet collate this information. We are introducing a revised annual report process which will require partnerships to set out clearly the links that they have forged with the range of sectors and organisations, including the private sector.

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Nid ydym yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Yr ydym yn cyflwyno proses adroddiadau blynyddol ddiwygiedig a bydd yn ofynnol i'r partneriaethau nodi'n glir y cysylltiadau y maent wedi'u meithrin â gwahanol sectorau a sefydliadau, gan gynnwys y sector preifat.

**Tlodi Tanwydd**  
**Fuel Poverty**

**Q13 Brynle Williams:** What are the Welsh Assembly Government's priorities for reducing fuel poverty in North Wales? OAQ1094(SJR)

**C13 Brynle Williams:** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lleihau tlodi tanwydd yn y Gogledd? OAQ1094(SJR)

**Edwina Hart:** 'Warm Homes and Energy

**Edwina Hart:** Mae 'Deddf Cartrefi Cynnes

Conservation Act 2000: A Fuel Poverty Commitment for Wales' sets out our policies that will ensure that no household in Wales should live in fuel poverty beyond 2018. Our main vehicle for doing this is the home energy efficiency scheme, which has to date been able to assist over 12,000 households from across north Wales.

ac Arbed Ynni 2000: Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru' yn amlinellu ein polisiau i sicrhau na ddylai unrhyw gartref yng Nghymru ddioddef tlodi tanwydd ar ôl 2018. Byddwn yn cyflawni hyn yn bennaf drwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref a bu modd cynorthwyo dros 12,000 o gartrefi ar draws y Gogledd o dan y cynllun hwn hyd yma.

### **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Anti-social Behaviour**

**Q14 William Graham:** Will the Minister outline how Welsh Assembly Government policies tackle anti-social behaviour? OAQ1114(SJR)

**C14 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut mae polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? OAQ1114(SJR)

**Edwina Hart:** The Welsh Assembly Government supports community safety partnerships to ensure a joined up, multi-agency approach to combating anti-social behaviour in Wales.

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol i sicrhau ein bod yn cydweithio ar draws asiantaethau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru.

### **Cynhwysiant Cymdeithasol Social Inclusion**

**Q15 Kirsty Williams:** Will the Minister make a statement on her plans to promote social inclusion in rural areas? OAQ1108(SJR)

**C15 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig? OAQ1108(SJR)

**Edwina Hart:** The social justice annual report for 2006 provides a comprehensive analysis of programmes and policies across the Assembly Government aimed at combating poverty and social exclusion across Wales. The full report and accompanying summary leaflet can be accessed on the Government's internet site.

**Edwina Hart:** Mae adroddiad blynyddol 2006 ar gyfiawnder cymdeithasol yn cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o holl raglenni a pholisiau Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol ar draws Cymru. Mae'r adroddiad llawn a'r crynodeb ar gael ar wefan y Llywodraeth.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks**

#### **Menter Gymdeithasol Social Enterprise**

**Q3 Peter Black:** Will the Minister make a statement on the role of social enterprise in the Welsh economy? (OAQ1262) *Transferred for written answer.*

**C3 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl menter gymdeithasol yn economi Cymru? OAQ1262(EIN) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig*

**The Minister for Social Justice and Y Gweinidog dros Gyfiawnder**

**Regeneration (Edwina Hart):** Social enterprise operates in the Welsh economy by providing essential services and products in areas in which the traditional private sector either will not or cannot operate. The sector is citizen-focused, tackles social exclusion and brings the economically inactive back into the world of work.

**Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae mentrau cymdeithasol yn cyfrannu at economi Cymru drwy ddarparu gwasanaethau a chynnyrch hanfodol mewn meysydd lle na wnaiff y sector preifat traddodiadol weithredu, neu lle nad oes modd iddo weithredu. Mae'r sector yn canolbwyntio ar y dinesydd, yn mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac yn denu'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn ôl i'r byd gwaith.

### **Trafnidiaeth Integredig Integrated Transport**

**Q11 Michael German:** What action is the Welsh Assembly Government taking to promote integrated transport schemes? OAQ1304(EIN)

**C11 Michael German:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo cynlluniau trafndiaeth integredig? OAQ1304(EIN)

**The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies):** I am putting in place a number of tools, which include the Wales transport strategy, regional transport planning and smarter choices. These, plus control of Arriva Trains Wales services, will provide, for the first time, a joined-up approach to delivering integrated transport.

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Yr wyf yn cyflwyno nifer o fesurau, gan gynnwys strategaeth drafndiaeth Cymru, cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol a dewisiadau doethach. Bydd y rhain, ynghyd â'r gallu i reoli gwasanaethau Trenau Arriva Cymru, yn ein galluogi i fynd ati, am y tro cyntaf, mewn ffordd gydgyssylltiedig i gyflwyno trafndiaeth integredig.

### **Cysylltiadau Ffordd Road Links**

**C12 Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella cysylltiadau ffordd â maes awyr rhyngwladol Caerdydd? OAQ1287(EIN)

**Q12 Owen John Thomas:** What proposals does the Minister have to improve road links to Cardiff international airport? OAQ1287(EIN)

**Andrew Davies:** I recently announced funding to improve and enhance road safety along the A4226, Five Mile Lane, to cater for projected growth at the airport. Consultants have also recently been appointed to investigate transport options for improving access to Cardiff international airport and the METRIX development at St Athan. This will consider links from the M4 and improvements at Culverhouse Cross.

**Andrew Davies:** Yn ddiweddar cyhoeddais gyllid i wella ac i ategu diogelwch ar ffordd yr A4226, Five Mile Lane, i sicrhau bod modd ymdopi â'r twf a ragwelir o ran y maes awyr. Penodwyd ymgynghorwyr yn ddiweddar hefyd i ymchwilio i'r opsiynau o ran gwella mynediad at faes awyr rhyngwladol Caerdydd a datblygiad METRIX yn Sain Tathan. Byddant yn ystyried cysylltiadau o'r M4 a gwelliannau yng Nghroes Cwrlwys.

### **Datblygiad Economaidd Economic Development**

**C13 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y

**Q13 Ieuan Wyn Jones:** Will the Minister

Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau ar gyfer datblygiad economaidd Ynys Môn? OAQ1292(EIN)

make a statement on his plans for the economic development of Ynys Môn? OAQ1292(EIN)

**Andrew Davies:** Cyfarfu bwrdd Môn a Menai ar 20 Chwefror i drafod blaenoriaethau i'w cynnwys yn y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion y mae Ynys Môn yn eu hwynebu. Paratoir y cynllun cynhwysfawr hwn ar fyrder gan fy swyddogion, mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol a sefydliadau eraill.

**Andrew Davies:** The Môn a Menai board met on 20 February to discuss priorities to be incorporated in an action plan to address the issues facing Ynys Môn. This comprehensive plan will be prepared as a matter of urgency by my officials, working in partnership with the local authority and other organisations.

### **Balans Masnach Trade Balance**

**Q14 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on Wales's trade balance? OAQ1276(EIN)

**C14 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am falans masnach Cymru? OAQ1276(EIN)

**Andrew Davies:** Figures are not assembled regionally and, given that sub-UK import figures relate to point of entry rather than final destination, trade balance figures for Wales would not be a meaningful assessment of the position. Nevertheless, between 1999 and the four quarters to September 2006, growth in Welsh exports was 44.1 per cent.

**Andrew Davies:** Ni chaiff y ffigurau'r paratoi ar lefel ranbarthol ac, o gofio bod ffigurau mewnforion ar lefel islaw'r DU yn seiliedig ar y man cyrraedd yn hytrach na'r gychfan, ni fyddai ffigurau balans masnach ar gyfer Cymru yn rhoi asesiad ystyrlon o'r sefyllfa. Serch hynny, rhwng 1999 a'r pedwar chwarter hyd at fis Medi 2006, cafwyd cynnydd o 44.1 y cant o ran allforion Cymru.

### **Trafnidiaeth Integredig Integrated Transport**

**Q15 Peter Black:** What funding is available to promote integrated transport schemes in Wales? OAQ1263(EIN)

**C15 Peter Black:** Pa gyllid sydd ar gael i hyrwyddo cynlluniau trafndiaeth integredig yng Nghymru? OAQ1263(EIN)

**Andrew Davies:** Funding allocated to support integrated transport schemes in 2006-07 includes some £24 million in transport grant, £9.4 million in local transport services grant, £15.5 million in bus service operators grant, and continued bus revenue support. In addition, the rail franchise budget is currently running at around £140 million per annum.

**Andrew Davies:** Mae'r cyllid a ddyrannwyd i gynorthwyo cynlluniau trafndiaeth integredig yn 2006-07 yn cynnwys tua £24 miliwn drwy'r grant trafndiaeth, £9.4 miliwn drwy'r grant gwasanaethau trafndiaeth lleol, £15.5 miliwn drwy'r grant i weithredwyr gwasanaethau bws, a chymorth refeniw parhaus ar gyfer bysiau. Yn ogystal, ceir cyllideb gwerth tua £140 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd ar gyfer masnachfaint y rheilffyrdd.

**Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau heblaw am Fusnes**  
**Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business**

**Data ac Ystadegau**  
**Data and Statistics**

**Q14 Michael German:** Will the Minister make a statement on the production of Wales-specific equality data and statistics? OAQ0385(BM)

**The Business Minister (Jane Hutt):** Most Wales-specific equality statistics come from UK wide sources, such as the Census and labour force survey. We are currently reviewing the equalities evidence base for Wales, and will produce baseline reports for key policy areas by early 2008.

**C14 Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynhyrchu data ac ystadegau ynglŷn â chydaddoldeb sy'n benodol berthnasol i Gymru? OAQ0385(BM)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae'r rhan fwyaf o'r ystadegau cydraddoldeb sy'n ymwneud â Chymru yn benodol yn deillio o ffynonellau sy'n cwmpasu'r DU yn ei chyfanrwydd, megis y Cyfrifiad a'r arolwg o'r llafurlu. Yr ydym wrthi'n adolygu'r dystiolaeth sy'n sylfaen i'r maes cydraddoldeb yng Nghymru a byddwn yn paratoi adroddiadau sylfaenol ar gyfer y meysydd polisi allweddol erbyn dechrau 2008.

**Iaith Arwyddion Prydain**  
**British Sign Language**

**Q15 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's support for British Sign Language? OAQ0378(BM)

**Jane Hutt:** The Welsh Assembly Government has committed £1.6 million, matched by £1.1 million from Europe, to the BSL Futures Scheme aimed at increasing the number of BSL interpreters in Wales. To date, 20 apprentice interpreters have been appointed with a further 12 to be recruited this month.

**C15 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Iaith Arwyddion Prydain? OAQ0378(BM)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi neilltuo £1.6 miliwn, gydag £1.1 miliwn o arian cyfatebol o Ewrop, i'r cynllun BSL Futures sy'n ceisio cynyddu nifer y dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru. Hyd yma, penodwyd 20 o ddehonglwyr fel prentisiaid, a phenodir 12 prentis arall y mis hwn.